

Materion Ewrop

(Cynhyrchwyd gan
Swyddfa UE
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru)



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Rhifyn 8 – Hydref 2007

Cyflwyniad

Croeso i wythfed rhifyn o'r cylchlythyr, Materion Ewrop. Mae'r modd y mae Ewrop yn cael ei gyfleu a'i egluro i ddinasyddion Cymru yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn ei drafod yn gyson yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ar gyfer "[Communicating Europe in Partnership](#)" ar 3 Hydref. Mae trafod dyfodol yr UE yn bwnc llosg ar hyn o bryd o gofio'r ddadl ynghylch Cytuniad Diwygio Ewrop.

Un maes ar gyfer gwella a nodwyd gan y Comisiwn yw dimensiwn Ewropeaidd addysg dinasyddiaeth mewn ysgolion - mae'n awyddus i gefnogi cyfnewid yr arferion gorau ar draws Ewrop yn y maes hwn. Roedd hwn yn rhywbeth a godwyd gan Bwyllgor blaenorol yr Ail Gynulliad yn ei [ymateb](#) i bapur ymgynghori'r Comisiwn ym mis Mehefin 2006 (Y Papur Gwyn ar Bolisi Cyfathrebu).

Mae'n dda bod y Comisiwn yn pwysleisio'r angen am weithredu ar lefel lleol a rhanbarthol er mwyn creu dadl a gwell dealltwriaeth, er enghraifft drwy'r canolfannau Ewrop Uniongyrchol. Mae chwech o'r rhain eisoes yng Nghymru sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda phobl ifanc, cymunedau lleol a rhwydweithiau penodol. Hefyd, mae Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru eisoes wedi nodi y bydd yn archwilio'r posibilrwydd o fentrau cyfathrebu ar y cyd gyda'r llywodraeth glymblaid newydd yng Nghymru.

Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol bydd y Prif Weinidog yn ymddangos o flaen y Pwyllgor am y tro cyntaf yn y Trydydd Cynulliad. Bydd y Pwyllgor hefyd yn clywed sut y cafodd benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop eu defnyddio yng Nghymru fel y mae'n dechrau cymryd tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwaith y Pwyllgor neu am y cylchlythyr hwn, cofiwch gysylltu.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad.

[Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol](#)

23 Hydref 2007

- **Prif Weinidog** – bydd y Prif Weinidog Rhodri Morgan yn rhoi briff i'r Pwyllgor ar weithgareddau diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gynhadledd Rynglywodraethol a dyfodol polisi cydlyniant yr UE. Bydd hefyd yn cyfrannu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop.
- **Ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop** – bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan Gymdeithas Adeiladu'r Nationwide sy'n gweithredu fel cyfryngwr i Fanc Buddsoddi Ewrop a Chymdeithas Dai Valleys to Coast sydd wedi manteisio ar fenthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop er mwyn cwblhau trosglwyddo stoc dai o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2003.
- **Strategaeth Cysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – bydd y Pwyllgor yn cael papur i'w nodi.

[Y Pwyllgor Menter a Dysgu](#)

17 Hydref

- [Holi Gweinidogion ar faterion trawsbleidiol](#) - mae'r pwyllgor wedi galw ar Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; a Rhodri Glyn Thomas AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth i roi tystiolaeth ar weithredu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol, yn ogystal â Cymru: Economi yn Ffynnu a'r broses o uno'r Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Eitemau'n ymwneud ag agenda'r UE

[Y Pwyllgor Cynaliadwyedd](#)

18 a 25 Hydref

- [Lleihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru](#) – bydd y Pwyllgor yn parhau i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid ar gyfer ei ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon. Bydd prosiect Tai Cynaliadwy yn Ewrop yr UE yn rhoi tystiolaeth ar arfer da ar 18 Hydref.

Edrych yn ôl: Eitemau'n ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol – 25 Medi

- **Banc Buddsoddi Ewrop** – bu'r Pwyllgor yn trafod ehangder yr ymchwiliad a'r newidiadau i'r cylch gorchwyl. Bydd y Pwyllgor yn cysylltu â rhanddeiliaid a bydd yn dechrau cymryd tystiolaeth yn y cyfarfod nesaf.
- **Y wybodaeth ddiweddaraf am y Comisiwn Ewropeaidd** - rhoddodd Andy Klom, Cynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru friff i'r Pwyllgor ynghylch yr ymweliadau sydd i ddod gan Comisiynwyr â Chymru a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y misoedd i ddod. Un o'r prif faterion fydd Cytuniad Diwygio Ewrop a sut i'w egluro i ddinasyddion.
- **Rhaglen waith yn y dyfodol**– nododd y Pwyllgor ei feysydd diddordeb, trafododd ei ddull o ymdrin â materion Ewrop, y ffordd orau o gydweithio â phwyllgorau eraill a chraffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Pwyllgor Cyfle Cyfartal – 11 Hydref

- **Ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol** – cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer eu hymchwiliad ar 11 Hydref yn dilyn trafodaeth gyntaf yn y cyfarfod ar 27 Medi. Bydd yr ymchwiliad yn arwain at argymhellion ar y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau cyfle cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r bobl sy'n byw o fewn y cymunedau lle maent yn byw ac yn gweithio.

Lincs

[Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
[Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
[Tudalennau'r Pwyllgor](#)
[Tudalennau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag

Anna Daniel, Pennaeth Swyddfa (anna.daniel@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rond Point Schuman, 11
B-1040 Bruxelles
Gwlad Belg
0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Anna Daniel.